

GARN BACH TRYWERYN

England & Wales · Charity number 1196991

Details

Other names CYLCH MEITHRIN GARN BACH TRYWERYN

Status Registered

Legal form CIO

Registered 2021-12-08

Register [View on the Charity Commission register](#)

Contact

Address Ysgol Bro Tryweryn
Frongoch
Y Bala
Gwynedd
LL23 7NT

Phone 07487524730

Email garnbachtryweryn@gmail.com

Activities

Objects: AMCANION Y GYMDEITHAS YW HYRWYDDO ADDYSG PLANT DAN OED YSGOL YN MAESYWAEN TRWY GYFRWNG YR IAITH GYMRAEG. TO ADVANCE THE EDUCATION OF PRE-SCHOOL CHILDREN IN MAESYWAEN THROUGH THE MEDIUM OF THE WELSH LANGUAGE.

Activities: Cylch Meithrin/Gofal Dydd sydd yn darparu sesiynau addysg/cylch meithrin a gofal dydd i blant oed 2-4 oed ar ddyddiau Llun i Gwener o 8.00yb-5.30yp (rydym yn cynnig sesiynau amrywiol). Rydym hefyd yn darparu gofal tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant o 2 hyd at 11 oed.

Classification

- **How:** Provides Services
- **What:** Education/training
- **Who:** Children/young People

Geography

- Gwynedd

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£116,366	£105,215	-	-
2024-03-31	£117,353	£105,209	-	-
2023-03-31	£329,146	£350,395	-	-

Trustees

Name	Role	Appointed
Mali Fflur Dafydd	Chair	2023-10-13
Angharad Davies		2021-05-13
Catrin Elen Roberts		2021-05-13
Glain Jones		2021-05-13
Lisa Mair Smallwood		2023-10-13
Lois Angharad Evans		2025-10-02
Nia Mai Lynch		2023-10-13

GARN BACH TRYWERYN

England & Wales - Charity number 1196991

Accounts



Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod

O **01/04/2024** (dyddiad cychwyn y cyfnod)

Hyd at **31/03/2025** (dyddiad diwedd y cyfnod)

Enw'r elusen: Garn Bach Tryweryn

Rhif elusen gofrestredig: 1196991

Amcanion a gweithgareddau

	Cyfeirnod SORP	
Crynodeb o amcanion yr elusen a nodwyd yn y ddogfen lywodraethol	Para 1.17	Cylch Meithrin/Gofal Dydd yn darparu addysg i blant rhwng 2-4 oed a gofal i blant clwb ar ôl ysgol/clwb gofal gwyliau o 2-11 oed.
Crynodeb o'r prif weithgareddau a ddarparwyd er budd cyhoeddus mewn perthynas a'r amcanion hyn, yn benodol, y gweithgareddau, y prosiectau neu'r gwasanaethau a nodwyd yn y cyfrifon.	Para 1.17 a 1.19	Rydym wedi ystyried y canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau at fudd cyhoeddus. Cynnig addysg a gofal i hyd at 19 o blant yng Nghaban Garn Bach Tryweryn drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â gofynion AGC/Estyn. Byddwn yn derbyn arweiniad ac argymhellion gan ein hathrawes ymgynhorol ac hefyd ein Cydlynnydd Cefnogi.
Datganiad yn cadarnhau a yw'r ymddiriedolwyr wedi rhoi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus	Para 1.18	Cadarnhau ein bod yn cydymffurfio efo'r gofynion statudol.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Os dymunwch rhwch datganiadau pellach, lle bo hynny'n berthnasol, ynghylch:

	SORP reference	
Polisi darparu grantiau	Para 1.38	Wedi bod yn ymgeisio am nifer o grantiau i'n cynorthwyo efo datblygu/cynnal addysg o'r safon uchaf a hefyd ar gyfer ariannu prosiect/datblygiadau yn y Caban, yn enwedig yr ardal tu allan. Wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn ambell grant cymunedol hefyd ar gyfer cynorthwyo efo ariannu gweithgareddau clwb gofal ar ôl ysgol/clwb gofal gwyliau.
Polisi buddsoddiad cymdeithasol gan gynnwys buddsoddiad cysylltiedig â rhaglen	Para 1.38	Er mwyn darparu addysg a gofal am bris rhesymol wedi cynnal amryw o weithgareddau codi arian ac wedi ymgeisio am nifer o grantiau i wella'r ddarpariaeth â chynnal addysg o'r safon uchaf.
Cyfraniad gan wirfoddolwyr	Para 1.38	Yn ffodus iawn o gefnogaeth gwirfoddolwyr â chyfraniadau gan aelodau'r gymuned. Mae cyfraniad rhieni ac aelodau'r pwyllgor yn amhrisiadwy yn enwedig gyda gweithgareddau codi arian ar gyfer y Cylch â chynorthwyo mewn sawl ffordd arall hefyd.
Arall		

Cyraeddiadau a pherfformiad

	SORP reference	
Crynodeb o brif gyflawniadau'r elusen, gan nodi'r gwahaniaeth y mae gwaith yr elusen wedi'i wneud i amgylchiadau ei buddiolwyr ac unrhyw fuddion ehangach i'r gymdeithas gyfan.	Para 1.20	Darparu hyd at 150 o sesiynau addysg feithrin a gofal dydd (47.5 yr wsnos) i hyd at 19 o blant yng Ngarn Bach Tryweryn (i blant ardal Parc, Rhyduchaf, Maesywaen, Arenig, Cwmtirmynach, Frongoch ac ambell un o ardal y Bala hefyd) am bris rhesymol gan gydymffurfio efo gofynion AGC ac Estyn.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Os dymunwch rhwch datganiadau pellach, lle bo hynny'n berthnasol, ynghylch:

Cyflawniadau yn erbyn yr amcanion a osodwyd	Para 1.41	Wedi cyflawni'r uchod.
Perfformiad gweithgareddau codi arian yn erbyn yr amcanion a osodwyd	Para 1.41	Wedi llwyddo i godi arian/cynnal gweithgareddau fel y nodwyd. Wedi trefnu ambell ddigwyddiad ar y cyd efo'r ysgol hefyd sy'n ffordd wych o hybu cydweithio â chodi arian yn ehangach. Nifer o weithgareddau codi arian i'w trefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd.
Perfformiad buddsoddiad yn erbyn amcanion	Para 1.41	Wedi gweithredu.
Arall		

Adolygiad ariannol

Adolygiad o sefyllfa ariannol yr elusen ar ddiwedd y cyfnod	Para 1.21	Cadarnhau bod y sefyllfa ariannol yn ffafriol ac yn gynnaladwy.
Datganiad yn esbonio'r polisi ar gyfer cadw cronfeydd wrth gefn yn nodi pam eu bod yn cael eu cadw	Para 1.22	Mae gennym gyfrif cadw sydd wedi ei neilltuo yn benodol ar gyfer diben cynnal a chadw'r Caban a'r ardal tu allan. Rydym wedi derbyn yr arian hwn o ffynonellau grantiau penodol ac nid oes hawl gennym i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall heblaw cynnal a chadw'r adeilad fel y nodwyd yn ein cesiadau.
Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a chynhelir	Para 1.22	£14,846.85 (ar gyfer gwaith cynnal a chadw/datblygu'r Caban a'r ardal tu allan).
Rhesymau dros beidio â dal unrhyw gronfeydd wrth gefn	Para 1.22	Ddim yn berthnasol
Manylion gronfa sydd â diffyg sylweddol	Para 1.24	Ddim yn berthnasol.
Esboniad o unrhyw ansicrwydd ynghylch yr elusen yn parhau fel busnes gweithredol	Para 1.23	Ddim yn berthnasol

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Os dymunwch rhwch datganiadau pellach, lle bo hynny'n berthnasol, ynghylch:

Prif ffynonellau cyllid yr elusen (gan gynnwys unrhyw godi arian)	Para 1.47	Wedi cynnal amryw o weithgareddau codi arian er mwyn prynu adnoddau i wella darpariaeth addysg y plant. Wedi ymgeisio am nifer o grantiau hefyd. Wedi cofrestru ar gyfer y Rhestr Darparwyr Gofal Plant cymeradwy er mwyn ein galluogi i ymgeisio am grantiau. Mae'r 'Cynnig Gofal Plant' hefyd yn gymorth ar gyfer ariannu gofal plant. Rydym hefyd wedi bod yn ffodus o dderbyn cyfraniadau gan grant cymunedol y Coop ar gyfer cynorthwyo efo buddsoddi mewn adnoddau â chynnal gweithgareddau yn y clwb gofal ar ôl ysgol/clwb gofal gwyliau. Hefyd cyfraniadau gan y cynghorau cymuned lleol ar gyfer buddsoddi mewn adnoddau i'r Cylch.
Polisi ac amcanion buddsoddi (gan gynnwys unrhyw bolisi buddsoddi cymdeithasol a fabwysiadwyd)	Para 1.46	Ddim yn berthnasol.
Disgrifiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r elusen	Para 1.46	Mae'r nifer plant sy'n mynychu wedi gostwng eleni oherwydd lleihad yn nifer y plant yn y sector oedran meithrin yn yr ardal. Mae'r niferoedd yn gyffredinol yn is yn yr ardal am gyfnod – byddwn yn monitro ac yn cynnal pwyllgorau rheolaidd i drafod y sefyllfa ac yn ymateb a gweithredu fel sy'n briodol. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon yn edrych yn addawol ar gyfer y blynyddoedd nesaf gyda nifer dda o fabanod yn mynychu sesiynau Ti a Fi yn ein lleoliad.

Arall		
-------	--	--

Strwythur, Llywodraethiant a Rheoli

Disgrifiad o ymddiriedolaethau'r elusen:		
Math o ddogfen lywodraethol (cyfansoddiad, gweithred ymddiriedaeth, siarter frenhinol)	Para 1.25	Cyfansoddiad
Sut mae'r elusen wedi'i chyfansoddi? (e.e. cymdeithas anghorfforedig, CIO)	Para 1.25	CIO
Dulliau dewis ymddiriedolwyr gan gynnwys manylion unrhyw ddarpariaethau cyfansoddiadol e.e. etholiad i swydd	Para 1.25	Enwebu gan rieni'r Cylch/aelodau Pwyllgor mewn Cyfarfod Blynyddol.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Os dymunwch rhwch datganiadau pellach, lle bo hynny'n berthnasol, ynghylch:

Polisiâu a gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer anwytho a hyfforddi ymddiriedolwyr	Para 1.51	Mae'r Cylch yn gweithredu yn unol â pholisiâu'r Mudiad Meithrin a gellir gwneud cais i gael gweld y polisiâu â chyfansoddiad y cylch. Byddwn yn rhannu gohebiaeth gan y Mudiad ac unrhyw wybodaeth sy'n fuddiol, yn cynnig arweiniad ac yn berthnasol gyda'r ymddiriedolwyr. Hefyd yn cynnal pwyllgorau yn rheolaidd fel bo modd trafod materion allweddol sydd angen sylw.
Strwythur gweithredol yr elusen ac unrhyw rwydwaith ehangach y mae'r elusen yn gweithio gydag ef	Para 1.51	Ddim yn berthnasol.
Perthynas ag unrhyw bartïon cysylltiedig	Para 1.51	Ddim yn berthnasol.
Arall		

Manylion Cyfeirio a Gweinyddu

Enw'r elusen	Garn Bach Tryweryn
Enw arall a ddefnyddir gan yr elusen	
Rhif elusen gofrestredig	1196991
Prif gyfeiriad yr elusen	Safle Ysgol Bro Tryweryn, Frongoch, Bala, Gwynedd, LL23 7NT.

Enwau'r ymddiriedolwyr elusen sy'n rheoli'r elusen

	Enw'r ymddiriedolwr	Swydd (os oes)	Dyddiadau gweithredu os nad am flwyddyn gyfan	Enw'r person (neu'r corff) sydd â hawl i benodi ymddiriedolwr (os oes un)
1	Angharad Davies	Unigolyn Cyfrifol	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn
2	Mali Dafydd	Cadeirydd/Ymddiriedolwr	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn
3	Lois Evans	Is-ysgrifrennydd Ymddiriedolwr	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn
4	Nia Lynch	Ysgrifrennydd/ Ymddiriedolwr	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn
5	Lisa Smallwood	Ysgrifrennydd/ Ymddiriedolwr	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn
6	Catrin Elen Roberts	Ymddiriedolwr	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn
7	Glain Jones	Ymddiriedolwr	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn

Ymddiriedolwyr corfforaethol - enwau'r cyfarwyddwyr ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad

Enw'r cyfarwyddwr		

Enwau ymddiriedolwyr sy'n dal teitl eiddo sy'n berchen i'r elusen

Enw'r ymddiriedolwr	Dyddiadau gweithredu os nad am flwyddyn gyfan	

Cronfeydd a gynhelir fel ymddiriedolwyr ceidwad ar ran eraill

Disgrifiad o'r asedau a gynhelir yn y rhinwedd hon	Ddim yn berthnasol	
Enw ac amcanion yr elusen y mae'r asedau yn cael ei dal ar ei rhan a sut mae hyn yn dod o fewn amcanion yr elusen geidwad	Ddim yn berthnasol	
Manylion y trefniadau ar gyfer cadw asedau o'r fath yn ddiogel ac ar wahan i asedau'r elusen ei hun	Ddim yn berthnasol	

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Enwau a chyfeiriadau ymgynghorwyr (Gwybodaeth ddewisol)

Math o ymgynghorydd	Enw	Cyfeiriad
---------------------	-----	-----------

Enw'r prif weithredwr neu enwau uwch aelodau staff (gwybodaeth ddewisol)

Llinor Angharad Pritchard a Mari Siwan Davies (cyd-arweinyddion)

Eithriadau rhag datgelu


Rheswm dros beidio â datgelu manylion personél allweddol

Gwybodaeth ddewisol arall

Datganiad

Mae'r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod.

Arwyddwyd ar ran yr ymddiriedolwyr elusen

Llofnod(ion)		
Enw(au) llawn	Angharad Medi Tudor Davies	
Swydd (ee, ysgrifennydd, Cadeirydd ac ati)	Unigolyn Cyfrifol	
Dyddiad	08 Ionawr 2026	

Adroddiad y cadeirydd 2024 / 2025

Mae hi wedi bod yn flwyddyn lewyrchus iawn i gylch Garn Bach Tryweryn a llawer o ddigwyddiadau hwyllog wedi bod, oedd yn ein cof am hir.

I ddechrau, allwn ni ond dechrau wrth ddiolch i'r staff y cylch am eich gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf. Tydi hi ddim wedi bod yn hawdd i chi o gwbl eleni, llawer o newid wedi digwydd yn oriau'r staff. Mae newid niferoedd y plant wedi bod yn boen meddwl ganddo'ch, ond fedrwn ond diolch i chi am yrru ymlaen a dal yn rhoi 100% i'r plant bob diwrnod. Roedd hi'n anodd iawn hefyd i weld aelod o staff, Donna Puw yn ein gadel, a phob dymuniad a hapusrwydd iddi hi yn y swydd newydd.

Yn ogystal hefyd, y newid sydd wedi bod ers blwyddyn wrth roi help llaw a'r cylch Sarnau. Mae hyn wedi bod yn dipyn o waith i chi feddwl am staffio'r ddau le, felly diolch am eich amynedd.

Mae'r plant wedi cael dipyn o hwyl dros y flwyddyn ddiwethaf, wrth ymweliad ar goedwig, trip Llyn Brenig calan gaeaf, trip i siop Moi Dafydd, ymweliad a Siôn corn (diolch am Siôn Corn I ddod atom) ymweld ag Awel Coleg yn ei gwisgoedd Nadolig. Hefyd yn cael brecwast ffarmwr (oedd yn boblogaidd iawn yn nhŷ ni) trip trê'n y Bala, a thrip diwedd y flwyddyn i fferm Harlech, a llawer mwy!

Yn ogystal â chadw plant cylch a meithrin yn brysur, mi ydych chi hefyd wedi bod yn brysur iawn efo clwb ar ôl ysgol. Diolch am eich holl egni o 8 y bore, tan 5:30 pob diwrnod, rydym yn eich gwerthfawrogi yn fawr iawn, ac yn lwcus iawn o'r antis gwych yn y cylch yma.

Ymlaen a ni atoch chi'r rhieni sydd wedi bod yn help enfawr ar hyd y flwyddyn. Diolch am eich cymwynas ach cefnogaeth a hithau'n gyfnod economaidd mor heriol, dani yn ddiolchgar iawn, drwy fod yn dîm mor dda, rydym yn cadw cylch mewn sefyllfa mor iach.

Cafwyd noson arbennig o hel arian ' Noson Ddrag' yn Theatr Derek. Noson lwyddiannus, ond noson i'w chofio am byth. Roedden wedi hel hyd at £2,000 i'r noson, a hynny diolch i chi am eich help. Hefyd, diolch i John (Taid Steff) am helpu i oleuo, Meilir Llanuwchllyn am gyflwyno'r noson a hynny am ddim. Diolch i'r gymuned am eich cefnogaeth.

Ymlaen a ni i'r Eisteddfod. Ddiolchgar i'r urdd am roi'r cyfle i ni i gael cynnal y stondin fwyd. Diolch i chi gyd am eich gwaith caled o bob i'r cacennau, a helpu ar y stondin. Mae'r Eisteddfod yn dod ac arian bach del i'r cylch bob blwyddyn, a diolch i chi am eich nerth.

Diwedd y flwyddyn, gorffennwyd efo digwyddiad Ras hwyaid, oedd yn hyfryd cael pawb at ei gilydd yn yr haul. Diolch Eirian ac Aled a'r teulu am y croeso. Roedd yn brynhawn o hwyl a phlant gwir wedi mwylhau. Casglwyd £422.70.

Yna, diwrnod olaf y criw meithrin, cafwyd bore coffi a ffarwelio, wrth godi £71 at y cylch.

Ac i orffen, diolch i aelodau o bwyllgor sydd wedi bod yn brysur iawn ac wedi bod yn llawer o gyfarfodydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch eto am drefnu'r raffl fawr, sydd yn dod (yn ddistaw bach) ac arian bach del bob blwyddyn i'r cylch.

Diolch yn fawr am ddod heno, ymlaen a ni i'r flwyddyn newydd.

Adroddiad Arweinyddion cyfarfod Blynyddol

Hydref 2025

Wel mae yna flwyddyn arall wedi mynd heibio. Rydym ar ein pedwerydd flwyddyn yn y caban ac wedi dod i adnabod ein trefn newydd yn dda iawn. Rydym wedi cael blwyddyn prysur arall. Y Flwyddyn yma mae gennym 9 o blant ar ein llyfrau ac yn obeithiol y cawn ni fwy dros y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r clwb gwyliau wedi bod yn boblogaidd eto yn ystod gwyliau'r haf a caewyd dim ond ar gyfer wythnos yr Eisteddfod. Hefyd mae'r clwb ar ôl ysgol yn mynd yn dda iawn.

Mae yna dipyn o bethau wedi newid dros y flwyddyn diwethaf. Yn anffodus roedd rhaid I Donna ein gadael ni ac rydym yn deall ei bod hi yn mwynhau ei swydd newydd. Ohwerydd hyn mae yna fwy o gyfrifoldeb arnai ac mae Angarad a finnau yn cyd weithio yn fwy nag erioed. Mae Angharad yn gyfrifol fwy ar yr ochr y cynllinio a fine yn gwneud mwy ar y gwaith papur. Fel mae rhai ohonoch yn ymwybodol mae plant Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel wedi ymuno a ni yn Garn Bach Tryweryn ac mae Katy yn gweithio gyda ni hefyd. Rydym yn croesawu y plant, rhieni a Katy ac yn diolch iddyn nhw am eu dealltwriaeth ac amynedd wrth wneud y trosglwyddiad yma.

Rydym rŵan wedi dod i ddygymod gyda'r drefn newydd y cwricwlwm i Gymru. Ar rydym yn ei ddilyn gan roi fwy o brofiadau i'r plant. Rydym yn dilyn trywydd y plentyn gan ddilyn eu diddordebau a chreu "themâu". Byddem dal yn gwneud themâu megis y tymhorau a thraddodiadau a gwyliau megis Nadolig, Pasg a Sul y Mamau/Tadau ayyb. Os ydych yn teimlo bod gan eich plentyn diddordeb mawr yn rhwybeth yna dwedwch wrthym a gallwn creu gwahoddiad I ddysgu o hyn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydm wedi gwneud llawer o bethau. Rydym wedi bod yn mynd ar blant i'r goedwig mewn grwpiau bach ac mae pawb wedi mwynhau yn fawr. Mae'r profiadau mae'r plant yn cael yma yn werthfawr iawn gan ddefnyddio tools a chael profiad o goginio ar y tân. Rydw i yn edrych ymlaen at fynd ar blant eto. Rydym yn diolch i deulu Rhyd-Defaid am adael i ni ddefnyddio eu coedwig a'u tir nhw.

Mae wedi cyflawni cynllyn Cyn Ysgolion Iach Gwynedd. Mae o wedi bod yn dipyn o waith ond rydym wedi llwyddo i'w orffen a chael y dystysgrif. Rydw I wedi cyflawni lefel 2 mewn baby massage ac yn gobeithio cyflawni lefel 3 yn fuan a dechrau sesiynau baby massage yn fuan. Blwyddyn diwethaf mi nesi ddechre sesiynau sesori babi ac roedd hyn yn boblogaidd iawn gyda fyny I 15 rhiant yn dod ar un tro.

Rydym dal I asesu yn ddigidol. Rydym yn gwneud ein harsylwadau ac asesu ar ein ipad newydd ac yn ei bostio ar Seesaw yn syth felly byddech yn eu derbyn yn syth yn hytrach na ysgrifennu ei lawr ar ddogfen. Bydd hyn yn gwneud y gwaith asesu'r Pum Llwybr Dysgu llawer haws i ni.

Rhywbeth sydd wedi gweithio yn arbennig o dda ydi trosglwyddo'r plant meithrin i'r ysgol. Y tymor olaf cefais fynd i mewn i'r ysgol i siarad gyda Mrs Lynch er mwyn trafod y plant oedd yn dechrau dosbarth meithrin Medi yma. Teimlaf fod hyn wedi gweithio yn well yn hytrach na rhoi papur iddyn nhw am y plant. Roedden nhw yn cael cyfle i ddod i adnabod y plant a chael ychydig o'u cefndir cyn iddyn nhw ddechrau.

Rydym yn cynnal Ti a Fi bore Llun ac mae'n braf croesawu darpar rieni, Nain a Thaid a Gwarchodwyr i'n plith. Ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu babis newydd sydd i ddod.

Blwyddyn diwethaf roeddem yn ffodus iawn o gael grant cyfalaf o £5,000 er mwyn gwella'r ardal tu allan. Mae Eiddon wedi bod yn brysur iawn yn rhoi ffens bren dal, turff newydd, ardal chippings a ardal wood chip. Bydd hyn yn creu ardal adeiladu, ardal cegin fwd ac ardal dwr. Rydym yn ddiolchgar

iawn I Eiddon am hyn. Os oes gennych unrhyw loose parts megis peipiau, preniau, olwynion neu reals byddem yn ddiolchgar ohonynt plîs.

Roeddem hefyd dal yn gwario ein arain o'r grant Coop. Cawsom ddefnyddio rhan ohono yn y gwyliau'r haf drwy fynd i soft play, AirHop a Brenig. Os oes gennych unrhyw syniadau am bobl i ddod i mewn i neud gweithgareddau gyda'r plant byddem yn ddiolchgar o'u clywed plîs.

Cawsom wybod yn ysgod yr haf bod drapariaeth gofal plant 2 oed wedi ehangu ac rwan yn cyfero Frongoch, Cwmtirmynach, Llyn Celyn, Llanfor, Llandderfel a Sarnau. Cawsom gynnig I goferstru ar ei gyfer. Mae hyn yn golygu bod y plant dwy oed sydd yn byw yn y lleoliadau yma yn cael fyny I 12.5 awr am ddim sef 2.5 awr bod bore y tynor ar ol eu penblwydd yn ddwy oed. Yn anffodus nid ydi pob ardal sydd yn dod I Garn Bach yn ei gael sydd yn siomedig. Mae hyn yn golygu ychydig mwy o waith papur ond gobeithio y bydd yn dennu mwy o blant atom.

Oherwydd niferoedd y plant rydym wedi gorfod lleihau oriau staff. Rydym yn ddiolchgar iawn i chi staff am gydweithredu gyda hyn. Gobeithio y bydd niferoedd y plant yn codi dros y flwyddyn.

Hoffwn i ac Angharad ddiolch yn fawr i'r staff, rhieni, aelodau o'r pwyllgor, a staff ysgol Bro Tryweryn am eich cefnogaeth. Mae'n bob amser yn bleser cyd weithio gyda chi. Ac wrth gwrs y plant i gyd. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn i ddod.

Hoffwn orffen ar longyfarch y Pwyllgor yma ar ennill gwobr Pwyllgor gorau yng Ngwobrau Mudiad Meithrin drwy Gymru! Roedd hi'n brofiad arbennig mynd I nol y gwobr ac rydym yn falch iawn ohonoch.

Diolch,

Anti Mari ac Anti Angharad.

ADRODDIAD CYLLIDOL AR GYFER CYFARFOD BLYNYDDOL
CYLCH MEITHRIN GARN BACH TRYWERYN
Nos Iau, 2/10/2024 am 7.00yh yn y Garn Bach Tryweryn
Blwyddyn Gyllidol Ebrill 1^{af} 2024 – Mawrth 31^{ain} 2025

Gweler y fantolen am y cyfnod 1^{af} o Ebrill 2024-31^{ain} o Fawrth, 2025. Gwnaed elw o **£115,964.64**

yn ystod y flwyddyn.

Diolch i Bethan Jones am ei chymorth gydag archwilio'r cyfrifon – rydym yn gwerthfawrogi ei chymorth.

Balans cyfrif Cyfredol ar 31/03/24: £ 44832.21
Balans Cyfrif Cadw ar 31/03/24: £ 14939.30

Balans Cyfrif Cyfredol ar 31/03/25: £ 55869.38
Balans Cyfrif Cadw ar 31/03/24: £ 14,846.85

Hoffwn ategu fy ngwerthfawrogiad eto a diolch i bawb am eu cefnogaeth/cymorth ac amynedd gyda'r materion/penderfyniadau cyllidol/gweinyddol yn ystod y flwyddyn. Hefyd diolch o galon i'r rhieni i gyd am eu cefnogaeth â'ch cydweithrediad parod bob amser. Diolch hefyd i staff Ysgol Bro Tryweryn/Ysgol Ffrdd y Llyn am eu cydweithrediad â'ch cefnogaeth barod bob amser.

Grantiau

Bu'r Cylch yn ffodus iawn o dderbyn grantiau/cyfraniadau unwaith yn rhagor yn ystod y flwyddyn sy'n ein cynorthwyo efo buddsoddi mewn adnoddau â'n galluogi i barhau i ddarparu cyfleoedd â phrofiadau amhrisiadwy i blant y cylch a'r clybiau gofal ar ôl ysgol/gwyliau.

Grantiau'r Cylch 2024-2025

Grantiau Cylch

O Ebrill 2023	
Hydref 24 – Grant Cyfalaf Cyngor Gwynedd Er mwyn byddsoddi yn yr ardal tu allan.	£5,000
Cyfraniad Cyntaf Grant Cymunedol y Coop Defnyddir y cyllid hwn ar gyfer cynorthwyo efo costau ariannu ymweliadau/gweithgareddau ar gyfer y clwb gofal ar ôl ysgol/gwyliau.	£1,949.74
Cyngor Cymuned Llanycil £150 er mwyn medru buddsoddi mewn cegin fwd newydd ar gyfer yr ardal hon. Buddsoddwyd yn yr ardal tu allan er mwyn prynu tywod, cerrig mân, rhusgl coed at bwrpas cwblhau'r ardal tu allan	£150.00
Cyngor Cymuned Llandderfel Buddsoddwyd yn yr ardal tu allan er mwyn prynu tywod, cerrig mân, rhusgl coed at bwrpas cwblhau'r ardal tu allan	£100.00

Codi Arian

Bydd angen parhau i drefnu digwyddiadau codi arian. Yn ystod 2024-2025 trefnwyd y digwyddiadau/gweithgareddau a ganlyn. Anogir pawb i gofrestru a defnyddio easyfundraising – mae'n fodd effeithiol a didrafferth iawn o godi arian.

CODI ARIAN

Caffi Rali Ffermwyr Ifanc	£1,123.55		
---------------------------	-----------	--	--

Bore coffi	£46.50		
Gweithgareddau y Nadolig	£544.60		
Easyfundraising	£17.48		
Noson Drag	£3,059.10		
Caffi Sensori Sara	£74.00		
Caffi Esteddfod yr Urdd	£783.00		
Bore Coffi 'Rwbeth Neis, Neis i De'	£93.50		

Biliau (Quickbooks)

Mae'r feddalwedd 'Quickbooks' i'w weld yn gweithio'n hwylus iawn. Mae posib talu drwy PayPal neu drwy daliad BACS. Fodd bynnag, rydym yn gorfod talu canran o ffioedd gweinyddu ar y taliadau PayPal. Diolch i'r holl rieni am fod yn amyneddgar.

Staffio/Cytundebau Staff

Mae nifer y plant ar ein cofrestr wedi lleihau yn arw ar gyfer mis Medi eleni. 9 plentyn sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd. Yn sgil hyn, mae wedi bod yn anorfod i ni orfod lleihau oriau staff oherwydd nad oes cymaint o blant angen gofal yn ystod sesiynau penodol. Mae posibilrwydd efallai y bydd ambell blentyn yn ymuno efo ni yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Pwysleisiwyd bod angen i rieni fod yn glynnu at eu cytundebau Oriau Cylch er mwyn sicrhau bod y ratios plant>staffio yn gywir fel bo modd osgoi gor-staffio.

Gofal Dydd/Gofal Gwyliau/Gofal ar ôl Ysgol/Cyn-Ysgol

Ymddengys bod gofynion gofal y clwb ar ôl ysgol/clwb gofal gwyliau wedi lleihau am gyfnod hefyd.

Casgliad Clytiau/Casgliad Ysbwriel

Rydym gyda contract gyda cyngor Gwynedd ar gyfer casglu sbwriel ac ailgychu. Mae'r ffi yma yn reit uchel efallai bo modd trafod gyda y cyngor ar sut i gyd weithio gyda'r ysgol am hyn. Hefyd, rydym yn parhau i dalu'r ffi misol am y casgliad clytiau.

Iechyd a Diogelwch

Rydym wrthi'n diwygio ac yn diweddarau asesiadau risg ar gyfer Garn Bach Tryweryn. Hefyd yn adolygu'r polisiau yn unol â'r broses flynyddol. Trefnir i drydanwr lleol gynnal profion PAT ac archwilio'r offer trydanol. Gosodwyd system ddiogelwch ar y ddrws mewnol yr ystafell y cylch er mwyn sicrhau diogelwch y plant a'r staff.

Balans cyfrif Cyfredol ar 02/10/24: £55869.38

Balans Cyfrif Cadw ar 02/10/24: £14,846.85

Diolch i bawb am eu cefnogaeth/cymorth â'u cydweithrediad parod. Gwerthfawrogrir y cyfan.

Mari Davies (Hydref 2025)



CHARITY COMMISSION
FOR ENGLAND AND WALES

Garn Bach Tryweryn

1196991

Receipts and payments accounts

CC16a

For the period from	Period start date 4/1/2024	To	Period end date 3/31/2025
---------------------	-------------------------------	----	------------------------------

Section A Receipts and payments

	Unrestricted funds to the nearest £	Restricted funds to the nearest £	Endowment funds to the nearest £	Total funds to the nearest £	Last year to the nearest £
A1 Receipts					
Ffioedd Cylch Meithrin Fees	43,933	-	-	43,933	-
Grantiau/Grants	1,950	-	-	1,950	-
Grant Addysg/Education Grant	5,000	-	-	5,000	-
30 awr	58,820	-	-	58,820	-
Cyfraniadau/Donations	486	-	-	486	-
Codi Arian/Fundraising	5,840	-	-	5,840	-
Eraill/Misc	338	-	-	338	-
Sub total (Gross income for AR)	116,367	-	-	116,367	-
A2 Asset and investment sales, (see table).					
	-	-	-	-	-
	-	-	-	-	-
Sub total	-	-	-	-	-
Total receipts	116,367	-	-	116,367	-
A3 Payments					
Cyflogau/Salaries	77,746	-	-	77,746	-
Pensiwn/Pension	2,176	-	-	2,176	-
HMRC	6,651	-	-	6,651	-
Cyfrifydd Hill & Roberts Accountant	836	-	-	836	-
Taliadau Misol/Monthly Payments	780	-	-	780	-
Bwyd/Food	2,211	-	-	2,211	-
Adnoddau	2,912	-	-	2,912	-
Ffioedd Banc/Banc Charges	90	-	-	90	-
Taliadau Blynnyddol/Subscription	1,203	-	-	1,203	-
Gweinyddol/Administration	550	-	-	550	-
Hyfforddiant/Training	666	-	-	666	-
Codi Arian/Fundraising	1,539	-	-	1,539	-
Gweithgareddau/Activities	1,448	-	-	1,448	-
Cynnal a Chadw	6,613	-	-	6,613	-
Sub total	105,421	-	-	105,421	-
A4 Asset and investment purchases. (see table)					
	-	-	-	-	-
	-	-	-	-	-
Sub total	-	-	-	-	-
Total payments	105,421	-	-	105,421	-
Net of receipts/(payments)	10,946	-	-	10,946	-
A5 Transfers between funds					
A6 Cash funds last year end					
Cash funds this year end	10,946	-	-	10,946	-

Section B Statement of assets and liabilities at the end of the period

Categories	Details	Unrestricted funds to nearest £	Restricted funds to nearest £	Endowment funds to nearest £
B1 Cash funds	Cyfrif Cyfredol	55,869	-	-
		-	-	-
		-	-	-
	Total cash funds	55,869	-	-
	(agree balances with receipts and payments account(s))	Agreement Error	OK	OK


Categories	Details	Unrestricted funds to nearest £	Restricted funds to nearest £	Endowment funds to nearest £
B2 Other monetary assets		-	-	-
		-	-	-
		-	-	-
		-	-	-
		-	-	-
		-	-	-

Categories	Details	Fund to which asset belongs	Cost (optional)	Current value (optional)
B3 Investment assets	Cyfrif Cadw	14,847	-	-
			-	-
			-	-
			-	-
			-	-

Categories	Details	Fund to which asset belongs	Cost (optional)	Current value (optional)
B4 Assets retained for the charity's own use			-	-
			-	-
			-	-
			-	-
			-	-
			-	-
			-	-
			-	-
			-	-

Categories	Details	Fund to which liability relates	Amount due (optional)	When due (optional)
B5 Liabilities			-	
			-	
			-	
			-	
			-	

Signed by one or two trustees on behalf of all the trustees

Signature	Print Name	Date of approval
	Angharad Medi Tudor Davies	1/8/2026

Cylch Meithrin Garm Bach Tryweryn
Mantolen 2024-25

Derbyniadau

Mewn Llaw 01/04/2024 (£59,771.51)

Cyfrif Cyfredol Cylch Meithrin 44,832.21
Cyfrif Cadw Cylch Meithrin 14,939.30

£

Taliadau

£

CYFLOGAU 77,745.67

PENSIWN NEST 2,175.57

HMRC 6,651.16

HILL & ROBERTS 835.92

EE - FFON 573.56

INTUIT 206.40

AELODAETH 185.00

FFIOEDD PLANT PAYPAL 19,789.52

FFIOEDD PLANT BANC 24,143.23

30 AWR GWYNEDD 10,715.41

30 AWR LLYW CYMRU 48,105.00

GRANT 5,000.00

GRANT COOP 1,949.74

MUDIAD MEITHRIN 50.00

CYFRANIADAU 472.09

GWETHGAREDDAU 14.00

LLOGAU BANC 287.55

TAN 42.00

CYNNAL A CHADW CABAN 6,571.25

FFIOEDD BANC 90.20

GWAINYDDOL 549.92

CWRS 666.00

MEWN LLAW 31/03/2025 (£70,716.23)

Cyfrif Cyfredol Cylch Meithrin 55,869.38

Cyfrif Cadw Cylch Meithrin 14,846.85

CODI ARIAN 12.00

CODI ARIAN CAFFI EISTEDDFOD 783.00

£176,137.80

£176,137.80

Elw am y flwyddyn

£10,944.72

Archwiliwyd a
chafwyd yr gywir.
Bethan Jones
4/11/25



Section A

Independent Examiner's Report

Report to the trustees

Garn Bach Tryweryn

On accounts for the year
ended

31/3/25

Charity no 1196991
(if any)

Set out on pages

I report to the trustees on my examination of the accounts of the above
charity ("the Trust") for the year ended **31 03 2025**

Responsibilities and
basis of report

As the charity's trustees, you are responsible for the preparation of the
accounts in accordance with the requirements of the Charities Act 2011
("the Act").

I report in respect of my examination of the Trust's accounts carried out
under section 145 of the 2011 Act and in carrying out my examination, I
have followed all the applicable Directions given by the Charity Commission
under section 145(5)(b) of the Act.

Independent
examiner's statement

I have completed my examination. I confirm that no material matters have
come to my attention in connection with the examination (other than that
disclosed below *) which gives me cause to believe that in, any material
respect:

- the accounting records were not kept in accordance with section 130
of the Charities Act; or
- the accounts did not accord with the accounting records; or
- the accounts did not comply with the applicable requirements
concerning the form and content of accounts set out in the Charities
(Accounts and Reports) Regulations 2008 other than any requirement
that the accounts give a 'true and fair' view which is not a matter
considered as part of an independent examination.

I have no concerns and have come across no other matters in connection
with the examination to which attention should be drawn in this report in
order to enable a proper understanding of the accounts to be reached.

* Please delete the words in the brackets if they do not apply.

Signed:

Bethan Jones

Date:

18/11/25

Name:

Bethan Jones

Relevant professional
qualification(s) or body
(if any):

AAT Technician

Address:

Hafod y Bryn, Cwmtirmynach

Y Bala, Gwynedd


LL23 7ED

Section B

Disclosure

Only complete if the examiner needs to highlight material matters of concern (see CC32, Independent examination of charity accounts: directions and guidance for examiners).

Give here brief details of any items that the examiner wishes to disclose.



GARN BACH TRYWERYN

England & Wales - Charity number 1196991

Accounts



Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod

O 01/04/2023 (dyddiad cychwyn y cyfnod)

Hyd at 31/03/2024 (dyddiad diwedd y cyfnod)

Enw'r elusen: **Garn Bach Tryweryn**

Rhif elusen gofrestredig: **1196991**

Amcanion a gweithgareddau

	Cyfeirnod SORP	
Crynodeb o amcanion yr elusen a nodwyd yn y ddogfen lywodraethol	Para 1.17	Cylch Meithrin/Gofal Dydd yn darparu addysg i blant rhwng 2-4 oed a gofal i blant clwb ar ôl ysgol/clwb gofal gwyliau o 2-11 oed.
Crynodeb o'r prif weithgareddau a ddarparwyd er budd cyhoeddus mewn perthynas a'r amcanion hyn, yn benodol, y gweithgareddau, y prosiectau neu'r gwasanaethau a nodwyd yn y cyfrifon.	Para 1.17 a 1.19	Rydym wedi ystyried y canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau at fudd cyhoeddus. Cynnig addysg a gofal i hyd at 19 o blant yng Nghaban Garn Bach Tryweryn drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â gofynion AGC/Estyn. Byddwn yn derbyn arweiniad ac argymhellion gan ein hathrawes ymgynhorol ac hefyd ein Cydlynnydd Cefnogi.
Datganiad yn cadarnhau a yw'r ymddiriedolwyr wedi rhoi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus	Para 1.18	Cadarnhau ein bod yn cydymffurfio efo'r gofynion statudol.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Os dymunwch rhwch datganiadau pellach, lle bo hynny'n berthnasol, ynghylch:

	SORP reference	
Polisi darparu grantiau	Para 1.38	Wedi bod yn ymgeisio am nifer o grantiau i'n cynorthwyo efo datblygu/cynnal addysg o'r safon uchaf a hefyd ar gyfer ariannu prosiect/datblygiadau yn y Caban, yn enwedig yr ardal tu allan. Wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn ambell grant cymunedol hefyd ar gyfer cynorthwyo efo ariannu gweithgareddau clwb gofal ar ôl ysgol/clwb gofal gwyliau.
Polisi buddsoddiad cymdeithasol gan gynnwys buddsoddiad cysylltiedig â rhaglen	Para 1.38	Er mwyn darparu addysg a gofal am bris rhesymol wedi cynnal amryw o weithgareddau codi arian ac wedi ymgeisio am nifer o grantiau i wella'r ddarpariaeth â chynnal addysg o'r safon uchaf.
Cyfraniad gan wirfoddolwyr	Para 1.38	Yn ffodus iawn o gefnogaeth gwirfoddolwyr â chyfraniadau gan aelodau'r gymuned. Mae cyfraniad rhieni ac aelodau'r pwyllgor yn amhrisiadwy yn enwedig gyda gweithgareddau codi arian ar gyfer y Cylch â chynorthwyo mewn sawl ffordd arall hefyd. Y Pwyllgor wedi dod i'r brig yn y categori Pwyllgor yng ngwobrau'r Mudiad Meithrin yn 2024.

Arall		
-------	--	--

Cyraeddiadau a pherfformiad

	SORP reference	
Crynodeb o brif gyflawniadau'r elusen, gan nodi'r gwahaniaeth y mae gwaith yr elusen wedi'i wneud i amgylchiadau ei buddiolwyr ac unrhyw fuddion ehangach i'r gymdeithas gyfan.	Para 1.20	Darparu hyd at 150 o sesiynau addysg feithrin a gofal dydd (47.5 yr wsnos) i hyd at 19 o blant yng Ngarn Bach Tryweryn (i blant ardal Parc, Rhyduchaf, Maesywaen, Arenig, Cwmtirmynach, Frongoch ac ambell un o ardal y Bala hefyd) am bris rhesymol gan gydymffurfio efo gofynion AGC ac Estyn.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Os dymunwch rhwch datganiadau pellach, lle bo hynny'n berthnasol, ynghylch:

Cyflawniadau yn erbyn yr amcanion a osodwyd	Para 1.41	Wedi cyflawni'r uchod.
Perfformiad gweithgareddau codi arian yn erbyn yr amcanion a osodwyd	Para 1.41	Wedi llwyddo i godi arian/cynnal gweithgareddau fel y nodwyd. Wedi trefnu ambell ddigwyddiad ar y cyd efo'r ysgol hefyd sy'n ffordd wych o hybu cydweithio â chodi arian yn ehangach. Nifer o weithgareddau codi arian i'w trefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd.
Perfformiad buddsoddiad yn erbyn amcanion	Para 1.41	Wedi gweithredu.
Arall		

Adolygiad ariannol

Adolygiad o sefyllfa ariannol yr elusen ar ddiwedd y cyfnod	Para 1.21	Cadarnhau bod y sefyllfa ariannol yn ffafriol ac yn gynladwy.
Datganiad yn esbonio'r polisi ar gyfer cadw cronfeydd wrth gefn yn nodi pam eu bod yn cael eu cadw	Para 1.22	Mae gennym gyfrif cadw sydd wedi ei neilltuo yn benodol ar gyfer diben cynnal a chadw'r Caban a'r ardal tu allan. Rydym wedi derbyn yr arian hwn o ffynonellau grantiau penodol ac nid oes hawl gennym i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall heblaw cynnal a chadw'r adeilad fel y nodwyd yn ein cesiadau.
Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a chynhelir	Para 1.22	£14,939.30 (ar gyfer gwaith cynnal a chadw/datblygu'r Caban a'r ardal tu allan).
Rhesymau dros beidio â dal unrhyw gronfeydd wrth gefn	Para 1.22	Ddim yn berthnasol
Manylion gronfa sydd â diffyg sylweddol	Para 1.24	Ddim yn berthnasol.
Esboniad o unrhyw ansicrwydd ynghylch yr elusen yn parhau fel busnes gweithredol	Para 1.23	Ddim yn berthnasol

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Os dymunwch rhwch datganiadau pellach, lle bo hynny'n berthnasol, ynghylch:

Prif ffynonellau cyllid yr elusen (gan gynnwys unrhyw godi arian)	Para 1.47	Wedi cynnal amryw o weithgareddau codi arian er mwyn prynu adnoddau i wella darpariaeth addysg y plant. Wedi ymgeisio am nifer o grantiau hefyd. Wedi cofrestru ar gyfer y Rhestr Darparwyr Gofal Plant cymeradwy er mwyn ein galluogi i ymgeisio am grantiau. Mae'r 'Cynnig Gofal Plant' hefyd yn gymorth ar gyfer ariannu gofal plant. Rydym hefyd wedi bod yn ffodus o dderbyn cyfraniadau gan grant cymunedol y Coop â Chlwb Beicio'r Bala ar gyfer cynorthwyo efo buddsoddi mewn adnoddau â chynnal gweithgareddau yn y clwb gofal ar ôl ysgol/clwb gofal gwyliau. Hefyd cyfraniadau gan y cynghorau cymuned lleol ar gyfer buddsoddi mewn adnoddau i'r Cylch.
Polisi ac amcanion buddsoddi (gan gynnwys unrhyw bolisi buddsoddi cymdeithasol a fabwysiadwyd)	Para 1.46	Ddim yn berthnasol.
Disgrifiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r elusen	Para 1.46	Mae'r nifer plant sy'n mynychu wedi gostwng eleni oherwydd lleihad yn nifer y plant yn y sector oedran meithrin yn yr ardal. Mae'r niferoedd yn gyffredinol yn is yn yr ardal am gyfnod – byddwn yn monitro ac yn cynnal pwyllgorau rheolaidd i drafod y sefyllfa ac yn ymateb a gweithredu fel sy'n briodol. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon yn edrych yn addawol ar gyfer y blynyddoedd nesaf gyda nifer dda o

		fabanod yn mynychu sesiynau Ti a Fi yn ein lleoliad.
Arall		

Strwythur, Llywodraethiant a Rheoli

Disgrifiad o ymddiriedolaethau'r elusen:		
Math o ddogfen lywodraethol (cyfansoddiad, gweithred ymddiriedaeth, siarter frenhinol)	Para 1.25	Cyfansoddiad
Sut mae'r elusen wedi'i chyfansoddi? (e.e. cymdeithas anghorfforedig, CIO)	Para 1.25	CIO
Dulliau dewis ymddiriedolwyr gan gynnwys manylion unrhyw ddarpariaethau cyfansoddiadol e.e. etholiad i swydd	Para 1.25	Enwebu gan rieni'r Cylch/aelodau Pwyllgor mewn Cyfarfod Blynyddol.

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Os dymunwch rhwch datganiadau pellach, lle bo hynny'n berthnasol, ynghylch:

Polisiâu a gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer anwytho a hyfforddi ymddiriedolwyr	Para 1.51	Mae'r Cylch yn gweithredu yn unol â pholisiâu'r Mudiad Meithrin a gellir gwneud cais i gael gweld y polisiâu â chyfansoddiad y cylch. Byddwn yn rhannu gohebiaeth gan y Mudiad ac unrhyw wybodaeth sy'n fuddiol, yn cynnig arweiniad ac yn berthnasol gyda'r ymddiriedolwyr. Hefyd yn cynnal pwyllgorau yn rheolaidd fel bo modd trafod materion allweddol sydd angen sylw.
Strwythur gweithredol yr elusen ac unrhyw rwydwaith ehangach y mae'r elusen yn gweithio gydag ef	Para 1.51	Ddim yn berthnasol.
Perthynas ag unrhyw bartïon cysylltiedig	Para 1.51	Ddim yn berthnasol.
Arall		

Manylion Cyfeirio a Gweinyddu

Enw'r elusen	Garn Bach Tryweryn
Enw arall a ddefnyddir gan yr elusen	
Rhif elusen gofrestredig	1196991
Prif gyfeiriad yr elusen	Safle Ysgol Bro Tryweryn, Frongoch, Bala, Gwynedd, LL23 7NT.

Enwau'r ymddiriedolwyr elusen sy'n rheoli'r elusen

	Enw'r ymddiriedolwr	Swydd (os oes)	Dyddiadau gweithredu os nad am flwyddyn gyfan	Enw'r person (neu'r corff) sydd â hawl i benodi ymddiriedolwr (os oes un)
1	Angharad Davies	Unigolyn Cyfrifol	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn
2	Catrin Elen Roberts	Cadeirydd/Ymddiriedolwr	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn
3	Eirian Ellis	Trysorydd/ Ymddiriedolwr	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn
4	Nia Lynch	Ysgrifennydd/ Ymddiriedolwr	2 flynedd	Pwyllgor Garn Bach Tryweryn
